ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Ystyriwch a oes effeithiau posibl ar isadrannau o wahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig
https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/nodweddion-gwarchodedig

- *Sut bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb (Gweler y dyletswyddau cyffredinol)?*
- *Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?*
- *Pa rwystrau, os oes rhai, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?*
- *Rhannwch eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ehangach o fewn Llywodraeth Cymru, a gofynnwch i gydweithwyr ystyried effeithiau anfwriadol.*
- *Sut rydych wedi/sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi ei chael o waith ymchwil i nodi effeithiau?*
- *Sut y byddwch yn gwybod a yw eich darn o waith yn llwyddiant?*
- *A ydych wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?*

Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu er-elw yn ailsefydlu ei hun fel model nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, mynediad at gymorth, safonau cymeradwyo, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Bydd y cynnig yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, neu statws priodas a phartneriaeth sifil.

Disgwylir i'r cynnig hyrwyddo cydraddoldeb drwy gefnogi parhad a sefydlogrwydd mewn lleoliadau maeth a lleihau'r risg o darfu'n ddiangen ar blant a gofalwyr maeth yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol. Gall y buddion hyn fod yn arbennig o berthnasol i blant a gofalwyr maeth sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, er nad oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol wedi'u nodi.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig na'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel wedi'u nodi. Nid yw'r cynnig yn creu rhwystrau

ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau, nac yn cyflwyno gofynion newydd a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Bydd trefniadau diogelu presennol, prosesau adolygu a diogelwch rheoleiddiol yn dal yn gymwys.

Mae'r dystiolaeth sy'n llywio'r asesiad hwn yn cynnwys canllawiau ymchwil ac ymarfer yng Nghymru ar bwysigrwydd sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal maeth. Mae ymchwil a grynhoir yng nghanllaw'r Gymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu (AFKA) Cymru *Gwella Sefydlogrwydd Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Lleoliadau Maethu* yn dangos bod lleoliadau sefydlog yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Mae'r cynnig yn ceisio cefnogi parhad gofal ac osgoi aflonyddwch diangen lle mae addasrwydd gofalwr maeth eisoes wedi'i asesu a lle nid oes unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth rhanddeiliaid yn parhau i gael eu hystyried wrth i fanylion terfynol y polisi gael eu cwblhau.

Bydd llwyddiant y cynnig yn cael ei ddangos drwy weithredu'r trefniadau newydd yn effeithiol, parhad lleoliadau maeth yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol, ac absenoldeb tystiolaeth o effeithiau andwyol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig. Bydd monitro'r polisi yn barhaus, adborth rhanddeiliaid a phrofiad gweithredu yn llywio unrhyw adolygiad o'r polisi yn y dyfodol.

O gofio natur dechnegol a gweinyddol y cynnig ac absenoldeb effeithiau gwahaniaethol a nodwyd, ni fernir bod fframwaith canlyniadau ar wahân yn angenrheidiol. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei adolygu, er hynny, wrth i'r polisi ddatblygu a chael ei weithredu

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos yr effaith (gadarnhaol neu negyddol) y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer ei chael ar y grwpiau gwarchodedig a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Gweler y ddogfen ganllaw ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth).* Mae'n bwysig cynnwys unrhyw gyfleoedd a nodwyd gennych a allai hybu neu hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys nodi'r hyn y gallwn ei wneud i ddileu'r rhwystrau a gwella cyfranogiad i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd o dan anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb*. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau yr ydych wedi'u nodi yn y dystiolaeth ac eglurwch a ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn a sut.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	**Effaith gadarnhaol.** Disgwylir i'r cynnig gefnogi sefydlogrwydd a pharhad i blant a phobl ifanc sy'n byw gyda gofalwyr maeth drwy leihau'r risg o darfu ar leoliadau maeth pan fydd darparwr gwasanaeth maethu yn trosglwyddo o fodel er-elw i fodel nid-er-elw. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.	Mae'r cynnig yn galluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth mewn amgylchiadau rhagnodedig, gan osgoi'r angen i ofalwyr maeth gael eu hailasesu'n ddiangen lle na fu unrhyw sylweddol yn eu haddasrwydd. Bwriad hyn yw cynnal trefniadau gofal sefydlog i blant a phobl ifanc a lleihau aflonyddwch yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol. Nid yw'r cynnig yn newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau, hawliau, trefniadau diogelu na safonau rheoleiddio.	Nid oes angen camau lliniaru gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi. Bydd mesurau diogelu presennol, adolygiadau gofalwyr maeth, trefniadau goruchwylio a goruchwyliaeth reoleiddiol gan AGC yn parhau i fod yn gymwys. Caiff monitro parhaus ac adborth gan randdeiliaid eu defnyddio i nodi unrhyw effeithiau anfwriadol sy'n deillio o weithredu.
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu sut y gellid ei	**Effaith gadarnhaol/niwtral** Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi i blant anabl, pobl ifanc, gofalwyr maeth na darpar ofalwyr maeth. Drwy gefnogi parhad cymeradwyaethau	Mae'r cynnig yn hwyluso parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth mewn amgylchiadau rhagnodedig lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid o fodel er- elw i fodel nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi. Bydd dyletswyddau statudol presennol, trefniadau diogelu, adolygiadau gofalwyr maeth, trefniadau cymorth a

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu hamhariadau, ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau y bydd eich cynnig, yn hytrach na'u creu. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy'n anablu pobl sydd â gwahanol fathau o amhariadau)	gofalwyr maeth, gall y cynnig helpu i gynnal trefniadau gofal sefydlog a lleihau aflonyddwch, a all fod yn arbennig o fuddiol i rai plant a phobl ifanc anabl.	gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Ni ddisgwylir i'r cynnig greu rhwystrau newydd i bobl anabl ac mae'n gyson â'r model cymdeithasol o anabledd, gan ei fod yn cynnal trefniadau cymorth presennol yn hytrach na chyflwyno prosesau neu ofynion ychwanegol a allai beri anfantais i bobl ag amhariadau.	goruchwyliaeth reoleiddiol yn parhau i fod yn gymwys. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi unrhyw effeithiau anfwriadol ar bobl anabl ac unrhyw rwystrau a allai ddod i'r amlwg yn ystod gweithredu.
Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	**Effaith Gadarnhaol/Niwtral** Mae'r cynnig yn gymwys i'r un graddau i bob gofalwr maeth a phob plentyn ac ni ddisgwylir iddo effeithio ar fynediad at wasanaethau, cymorth neu gyfleoedd ar sail ailbennu rhyw.	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am hunaniaeth rhywedd neu statws ailbennu rhywedd ac nid ydynt yn cyflwyno unrhyw ofynion newydd a allai greu rhwystrau neu anfantais i bobl drawsryweddol.	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi. Bydd amddiffyniadau cydraddoldeb a diogelu presennol yn parhau i fod yn gymwys.

Beichiogrwydd a mamolaeth	**Effaith Gadarnhaol/Niwtral** Mae'r cynnig yn gymwys i'r un graddau i bob gofalwr maeth a phob plentyn ac ni ddisgwylir iddo effeithio ar fynediad at wasanaethau maethu, cymorth neu gyfleoedd ar sail beichiogrwydd neu statws mamolaeth.	Mae'r cynnig yn ymwneud yn unig â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn berthnasol ni waeth beth am feichiogrwydd neu statws mamolaeth ac nid ydynt yn cyflwyno unrhyw ofynion newydd a allai beri anfantais i bobl yn ystod beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth neu'r cyfnod ôl-enedigol.	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi. Bydd amddiffyniadau cydraddoldeb, cyflogaeth a diogelu presennol yn parhau i fod yn gymwys. Bydd monitro parhaus ac adborth rhanddeiliaid yn cael eu hystyried i nodi unrhyw effeithiau anfwriadol sy'n deillio o weithredu.
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	**Effaith niwtral/gadarnhaol** Gall y cynnig gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gynnal lleoliadau maeth sefydlog a pharhad trefniadau gofal i blant a phobl ifanc o bob cefndir hiliol ac ethnig, gan leihau aflonyddwch diangen yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol.	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd neu statws	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Dylai darparwyr barhau i gyfleu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch lle bo'n briodol a bydd trefniadau monitro, adolygu a rheoleiddio presennol yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl.

		mewnfudo. Drwy osgoi ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn addasrwydd, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd lleoliadau a pharhad i blant a theuluoedd maeth. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar unrhyw grŵp hiliol neu ethnig.	
Crefydd, cred a diffyg cred	**Effaith gadarnhaol/niwtral** Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi i bobl o wahanol grefyddau neu gredoau, neu'r rhai heb unrhyw gred grefyddol. Gall y cynnig gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gynnal lleoliadau maeth sefydlog a pharhad trefniadau gofal, gan ganiatáu i blant a gofalwyr maeth barhau i dderbyn cymorth o fewn perthnasoedd ac amgylcheddau sefydledig sy'n gallu darparu ar gyfer eu hanghenion o ran ffydd, cred neu ddiffyg cred.	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am grefydd, cred neu ddiffyg cred. Drwy osgoi ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn addasrwydd, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd i blant a theuluoedd maeth tra'n cynnal	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Bydd y dyletswyddau presennol i ystyried a chefnogi anghenion crefyddol, diwylliannol a chredo plant yn parhau i fod yn gymwys. Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth am newidiadau sefydliadol yn cael ei chyfathrebu'n glir ac yn briodol i ofalwyr maeth, plant a theuluoedd. Bydd trefniadau goruchwylio, adolygu a rheoleiddio presennol yn parhau, a bydd adborth ymgynghori a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl.

		trefniadau cymorth ac adolygu presennol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar unrhyw grŵp ffydd neu ar y rhai heb unrhyw gred grefyddol.	
Rhyw / Rhywedd	**Effaith gadarnhaol/niwtral** Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer pobl o unrhyw ryw neu rywedd. Gall y cynnig gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gynnal lleoliadau maeth sefydlog a pharhad trefniadau gofal i blant a gofalwyr maeth, gan leihau aflonyddwch diangen yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol.	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am ryw, neu rywedd. Drwy osgoi ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn addasrwydd, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd i blant a theuluoedd maeth tra'n cynnal trefniadau cymorth, goruchwylio ac adolygu presennol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar fenywod, dynion neu bobl o unrhyw rywedd.	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Caiff y cynnig ei roi ar waith yn gyson ni waeth beth am ryw neu rywedd. Bydd trefniadau goruchwylio, adolygu a goruchwylio rheoleiddiol presennol yn parhau i fod yn gymwys, a bydd adborth ymgynghori a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl.

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	**Effaith gadarnhaol/niwtral wedi'i nodi.** Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Gall y cynnig gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gynnal lleoliadau maeth sefydlog a pharhad trefniadau gofal i blant a gofalwyr maeth, gan leihau aflonyddwch diangen yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol.	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am gyfeiriadedd rhywiol. Drwy osgoi ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn addasrwydd, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd i blant a theuluoedd maeth tra'n cynnal trefniadau cymorth, goruchwylio ac adolygu presennol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Bydd y cynnig yn cael ei weithredu'n gyson ni waeth beth am gyfeiriadedd rhywiol. Bydd safonau maethu, goruchwylio, adolygu a goruchwylio rheoleiddiol presennol yn parhau i fod yn gymwys, a bydd adborth ymgynghori a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl
Priodas a phartneriaeth sifil	**Effaith gadarnhaol/niwtral wedi'i nodi.**	Mae'r cynnig yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Caiff y cynnig ei roi

	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi i bobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil. Gall y cynnig gael effaith gadarnhaol drwy helpu i gynnal trefniadau maethu sefydlog a lleihau aflonyddwch diangen i ofalwyr maeth a'u teuluoedd yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol.	maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r trefniadau yn gymwys i'r un graddau ni waeth beth am statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Drwy osgoi ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn addasrwydd, mae'r cynnig yn cefnogi sefydlogrwydd i blant a theuluoedd maeth tra'n cynnal trefniadau cymorth, goruchwylio ac adolygu presennol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar bobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil.	ar waith yn gyson ni waeth beth am statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Bydd prosesau maethu, goruchwylio, adolygu a goruchwylio rheoleiddiol presennol yn parhau i fod yn gymwys, a bydd adborth ymgynghori a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	**Effaith gadarnhaol** Bwriedir i'r cynnig fod o fudd i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed drwy gefnogi parhad a sefydlogrwydd mewn trefniadau gofal maeth. Drwy osgoi tarfu diangen yn ystod trosglwyddo gwasanaeth maethu o fodel er-elw i fodel nid-er-elw, mae plant yn fwy	Prif ddiben y cynnig yw hwyluso parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth mewn amgylchiadau rhagnodedig lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn osgoi'r angen i ofalwyr maeth fynd drwy broses ailasesu lawn lle na fu unrhyw newid	Mae'r cynnig yn cynnwys mesurau diogelu i sicrhau mai lles plant yw'r ystyriaeth bennaf o hyd. Bydd yn ofynnol i'r darparwr sy'n dod i mewn ei fodloni ei hun bod gwybodaeth statudol allweddol yn dal yn ddilys ac yn gyfredol, a bydd adolygiad gorfodol o gymeradwyaeth y gofalwr maeth yn cael ei gynnal o

	tebygol o aros mewn lleoliadau sefydlog gyda gofalwyr maeth y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.	sylweddol yn eu haddasrwydd ac yn lleihau'r risg o ansicrwydd neu darfu ar leoliadau maeth presennol. Mae'r cynnig hefyd yn cynnal trefniadau cymorth, goruchwylio ac adolygu presennol, gan helpu i ddiogelu llesiant a sefydlogrwydd plant.	fewn 12 mis i'w drosglwyddo fel rhan o'r cylch adolygu presennol. Bydd trefniadau cymorth, goruchwylio a goruchwyliaeth reoleiddiol presennol yn parhau. Bydd yr effaith ar blant a phobl ifanc yn cael ei monitro drwy adolygiadau gwasanaethau maethu presennol, trefniadau arolygu a gwerthusiad parhaus o'r diwygiadau. Bydd unrhyw bryderon a nodir drwy'r prosesau hyn yn cael eu datrys Drwy fecanweithiau diogelu a rheoleiddio presennol.
Aelwydydd incwm isel	**Effaith gadarnhaol/niwtral** Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer aelwydydd incwm isel. Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol drwy hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad i ofalwyr maeth a phlant, gan helpu i osgoi aflonyddwch diangen a allai greu pwysau ymarferol neu ariannol ychwanegol ar gyfer aelwydydd maethu.	Mae'r cynnig yn hwyluso parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, lwfansau gofalwyr maeth, safonau cymeradwyo, mynediad at gymorth, gofynion diogelu neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Drwy osgoi'r angen am ailasesu diangen lle na fu unrhyw newid sylweddol yn addasrwydd gofalwr maeth, mae'r cynnig yn cefnogi parhad lleoliadau a threfniadau maethu, gan leihau ansicrwydd i blant a theuluoedd maeth. Nid oes unrhyw	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Bydd trefniadau cymorth, goruchwylio, adolygu a goruchwylio rheoleiddiol presennol yn parhau i fod yn gymwys, a bydd adborth ymgynghori a monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl ar aelwydydd incwm isel.

		dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar aelwydydd incwm isel.	

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi? (*Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?
Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) **Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol**	**Effaith gadarnhaol wedi'i nodi.** Mae'r cynnig yn cefnogi parhad a sefydlogrwydd i blant sy'n byw mewn gofal maeth drwy leihau'r risg o darfu ar leoliadau a pherthnasoedd presennol yn ystod trosglwyddo gwasanaeth maethu o sefydliad er-elw i sefydliad nid-er-elw.	Mae'r cynnig yn hwyluso parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn addasrwydd y gofalwr maeth. Mae hyn yn cefnogi sefydlogrwydd lleoliadau ac yn helpu i gynnal perthnasoedd gofalu sefydledig a chysylltiadau teuluol, gan gefnogi'r egwyddorion sy'n sail i Erthygl 8.	**Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi.** Bydd y trefniadau diogelu, adolygu a goruchwylio rheoleiddiol presennol yn parhau, gan gynnwys adolygiad gorfodol o gymeradwyaeth o fewn 12 mis o'i drosglwyddo.
Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) **Erthygl 14:**	**Effaith gadarnhaol/niwtral wedi'i nodi.** Mae'r cynnig yn gymwys i'r un graddau i'r holl ofalwyr maeth a phlant yr effeithir arnynt	Mae'r trefniadau yn seiliedig ar barhad y darparwr gwasanaeth maethu ac nid ydynt yn newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau	**Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi.** Bydd adborth ymgynghori a

Peidio â gwahaniaethu	ac ni ddisgwylir iddo arwain at wahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn neu grŵp.	maethu, safonau cymeradwyo, trefniadau cymorth na gofynion rheoleiddio. Mae'r cynnig yn gymwys ni waeth beth am nodweddion personol neu nodweddion gwarchodedig	monitro parhaus yn cael eu defnyddio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau annisgwyl.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) **Erthygl 3: Budd pennaf y plentyn**	**Effaith gadarnhaol wedi'i nodi.** Mae'r cynnig yn hyrwyddo lles plant drwy gefnogi parhad a sefydlogrwydd mewn trefniadau gofal maeth.	Drwy leihau'r risg o aflonyddwch a achosir gan ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen, mae'r cynnig yn helpu i sicrhau bod buddiannau gorau plant yn dal yn brif ystyriaeth yn ystod trawsnewidiadau sefydliadol. Bydd y trefniadau cymorth, goruchwylio a diogelu presennol yn parhau.	**Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi.** Bydd mesurau diogelu, adolygiadau a goruchwyliaeth reoleiddiol presennol yn parhau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) **Erthygl 20: Plant sydd wedi'u hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol**	**Effaith gadarnhaol wedi'i nodi.** Mae'r cynnig yn cefnogi darparu gofal amgen sefydlog a phriodol i blant nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd biolegol.	Mae'r cynnig yn helpu i gynnal parhad lleoliadau maeth drwy alluogi cymeradwyaethau i barhau lle mae darparwr yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn lleihau ansicrwydd ac yn cefnogi trefniadau gofal maeth sefydlog.	**Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru penodol gan nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi.** Bydd trefniadau cynllunio, cefnogaeth, adolygu a rheoleiddio gofal presennol yn parhau i fod ar waith.

Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[2] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020[3]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[4], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi y dylid rhoi sylw iddynt:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir ei bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl. Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys lle y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

Preswylio – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am hawl i breswylio, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio

Effaith Niwtral: Nid yw'r cynnig yn effeithio ar hawl dinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir i breswylio yn y DU, ac nid yw'n effeithio ar hawliau

[2] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.
[3] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.
[4] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

mynediad, ymadael, ceisiadau preswylio neu statws mewnfudo. Mae'r rheoliadau'n ymwneud yn unig â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle mae darparwr gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw.

Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Effaith niwtral: Nid yw'r cynnig yn ymwneud â chymwysterau proffesiynol na chydnabyddiaeth i gymwysterau a gafwyd yng ngwladwriaethau'r UE, AEE neu'r Swistir. Nid yw cymeradwyaeth gofalwr maeth yn dibynnu ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion

Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;

Effaith Niwtral: Nid yw'r cynnig yn effeithio ar hawl i gael budd-daliadau, gofal iechyd, addysg, tai neu unrhyw hawliau nawdd cymdeithasol eraill. Nid yw'n newid cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau maethu, lwfansau gofalwyr maeth, trefniadau cymorth na mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Effaith Gadarnhaol/Niwtral: Mae'r cynnig yn berthnasol yn gymwys i'r un graddau i'r holl ofalwyr maeth a phlant yr effeithir arnynt ni waeth beth fo'u cenedligrwydd neu eu statws mewnfudo. Drwy alluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle y bodlonir amodau rhagnodedig, mae'n cefnogi cysondeb triniaeth a pharhad trefniadau gofal. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi y byddai dinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir o dan anfantais oherwydd y cynnig.

Hawliau gweithwyr – Ar y cyfan, gwarentir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

Effaith Niwtral: Nid yw'r cynnig yn effeithio ar hawliau cyflogaeth, hawliau hunangyflogaeth, hawliau gweithwyr trawsffiniol neu amddiffyniadau sy'n codi o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion. Mae'r rheoliadau'n ymwneud â chymeradwyaethau

gofalwyr maeth yn unig ac nid ydynt yn newid statws cyflogaeth na hawliau gweithwyr.